# CAIS AM DDYFYNBRIS:

# Cryfhau llais y dysgwr mewn Addysg Bellach

**Ebrill 2025**

ColegauCymru
Uned 7 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais, Caerdydd CF15 7AB
Ff: 029 2052 2500
E: helo@colegaucymru.ac.uk
W: www.colegaucymru.ac.uk

CollegesWales
Unit 7 CaeGwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais, Cardiff CF15 7AB
T: 029 2052 2500
E: hello@collegeswales.ac.uk
W: www.collegeswales.ac.uk

## 1. Gwybodaeth Cwmni

| | |
|---|---|
| **Enw'r Cwmni** | Colleges Wales / Colegau Cymru Limited<br>(Cwmni Rhiant Fforwm Services Limited) |
| **Rhif Cwmni** | 2832103 |
| **Rhif Elusen** | 1060182 |
| **Is-Gwmni** | Fforwm Services Limited |
| **Rhif Is-Gwmni** | 3066192 |
| **Rhif TAW** | 655 9801 02 |
| **Swyddfa Gofrestredig a chyfeiriad gweithredol** | Unit 7, Cae Gwyrdd<br>Greenmeadow Springs<br>Tongwynlais<br>Caerdydd<br>CF14 7TE |
| **Tîm Prosiect** | Siân Holleran<br>Kelly Edwards<br>Rachel Rimanti |
| **Ffôn** | 029 2052 2500 |
| **E-bost** | Sian.Holleran@ColegauCymru.ac.uk<br>Kelly.Edwards@ColegauCymru.ac.uk<br>Rachel.Rimanti@ColegauCymru.ac.uk |

## 2. Cefndir

Mae ColegauCymru yn elusen addysg sy'n hyrwyddo budd cyhoeddus addysg bellach yng Nghymru. Credwn fod gan bob dysgwr yr hawl i addysg o safon fyd-eang, a ddarperir mewn lleoliad diogel, amrywiol a chynhwysol ac o fewn sector sydd yn cefnogi’r gymuned ehangach, cyflogwyr, a’r economi.

Rydym yn ymgymryd ag ymchwil, datblygu polisi ac yn darparu cymorth ymarferol i'r cymuned addysg bellach. Gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Medr, a phartneriaid eraill, rydym yn helpu i lunio polisïau sy’n effeithio ar y sector addysg bellach, ei ddysgwyr, a staff.

## 3. Rhesymeg

3.1 Mae ColegauCymru wedi derbyn cyllid Taith Llwybr 2 i ymgymryd â chyfres o weithgareddau a fydd yn cefnogi un o nodau Medr ym Mlaenoriaeth Strategol 1 sef ‘sicrhau bod y sector addysg drydyddol yn canolbwyntio ar anghenion y dysgwyr - eu profiad, eu cyflawniad a’u lles - gan sicrhau eu bod yn rhan o’r broses gwneud penderfyniadau gan annog cyfranogiad mewn dysgu ar bob cam o’u bywyd.’

**Y 2 allbwn prosiect yw:**

- adroddiad ymchwil yn amlygu cryfderau allweddol systemau llais y dysgwr yn Yr Iseldiroedd, Norwy a Gwlad y Basg, Sbaen;
- set o egwyddorion lefel uchel o arfer da ar gyfer datblygu systemau llais y dysgwr yn seiliedig ar y dysgu a gafwyd o'r tair gwlad Ewropeaidd a astudiwyd.

Un o weithgareddau allweddol y prosiect fydd ymweliad astudio 5 diwrnod ar gyfer 11 o gyfranogwyr i'r Iseldiroedd ym mis Medi 2025. Bydd ColegauCymru yn gweithio gyda CINOP yn Yr Iseldiroedd i ddatblygu rhaglen ar gyfer yr ymweliad astudio. Mae CINOP yn sefydliad sydd ag arbenigedd mewn dysgu, hyfforddi a datblygu gyda ffocws cryf ar wella Addysg ac Hyfforddiant Technegol a Galwedigaethol (TVET).

3.2 Mae ColegauCymru, fel y corff cynrychioliadol ar gyfer colegau addysg bellach yng Nghymru, wedi ymrwymo i sicrhau mynediad cyfartal i gyfleoedd gwneud penderfyniadau i bob dysgwr yn y sector trydyddol sydd newydd ei ffurfio, a’u bod yn cael eu cynnwys yn y cyfleoedd hynny. Ffocws arbennig ar gyfer ein gwaith yn y dyfodol hefyd fydd sicrhau bod llais pob dysgwr, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig a chyda nodweddion gwarchodedig, yn cael y cyfle i gael eu clywed ac i lunio'r system.

## 4. Yr Ymchwil

4.1 Mae ColeguCymru am gontractio ymgynghorydd annibynnol i weithredu fel ymchwilydd i arwain ar ddatblygu allbynnau’r prosiect. Bydd gofyn i’r ymgynghorydd:

- cynnal adolygiad desg o’r llenyddiaeth o systemau llais y dysgwr yn Norwy a Gwlad y Basg
- cymryd rhan yn yr ymweliad astudio â'r Iseldiroedd
- awgrymu ffyrdd ymholi i'r cyfranogwyr, cyn ymweld â'r Iseldiroedd, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adolygiad o lenyddiaeth i lywio cynllun yr ymweliad
- hwyluso sesiynau ôl-drafodaeth gyda chyfranogwyr yn ystod yr ymweliad i lunio'r adroddiad ymchwil
- cynhyrchu adroddiad ymchwil ar lais y dysgwr yn Yr Iseldiroedd yn ogystal â dadansoddiad cymharol o'r systemau yn Norwy a Gwlad y Basg yn seiliedig ar yr ymchwil desg flaenorol
- cynhyrchu set o egwyddorion lefel uchel o arfer da ar gyfer systemau llais dysgwyr effeithiol
- cyflwyno canfyddiadau’r ymchwil i Fforwm y Penaethiaid cyn y digwyddiad bord gron
- cefnogi ColegauCymru i gynllunio, dylunio a chyflwyno digwyddiad bord gron ganol mis Tachwedd 2025 gyda phartneriaid allweddol i ledaenu canfyddiadau’r ymchwil ac i lunio safbwynt polisi ColegauCymru ar lais y dysgwr

4.2 Y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y gwaith hwn yw hyd at £12,540 gan gynnwys TAW. Bydd angen i'r ymchwilydd ddarparu methodoleg arfaethedig, amserlen a dadansoddiad o'r costau i ColegauCymru i gyflawni allbynnau'r prosiect.

## 5. Gofynion

5.1 Bydd y prosiect yn dechrau ar 1 Mai 2025 ac yn dod i ben ar 31 Hydref 2026. Bydd y contractwr yn cael ei gyflogi am 8 mis rhwng Mehefin 2025 ac Ionawr 2026.

5.2 Dylai’r dyfyniad esbonio’r fethodoleg a ddefnyddir i gyflawni canlyniadau’r ymchwil a rhaid iddo gynnwys yr elfennau canlynol:

- Adolygiad llenyddiaeth ar bolisïau a strategaethau llais y dysgwr yn Norwy a Gwlad y Basg, Sbaen;
- Cyfeirio at Gynllun Strategol Medr yn enwedig mewn perthynas â Blaenoriaeth Strategol 1;

- Ymgysylltu â phenaethiaid colegau, ColegauCymru a staff mewn sefydliadau eraill a enwir yn ôl yr angen;
- Darparu diweddariadau rheolaidd i ColegauCymru drwy aelod dynodedig o staff drwy gyfarfodydd ar-lein, e-byst, a galwadau ffôn;
- Cynhyrchu adroddiad y prosiect a set o egwyddorion lefel uchel;
- Cymryd rhan mewn trafodaeth bord gron ar y canfyddiadau ym mis Tachwedd 2025.

5.3 Manylir ar y dyddiadau arfaethedig ar gyfer monitro a diweddariadau prosiect isod a chânt eu cadarnhau yn y cyfarfod cychwyn prosiect:

| Dyddiad | Cyfarfod |
|---|---|
| Mehefin 2025 | Cyfarfod Cychwyn Prosiect |
| Awst 2025 | Cynhyrchu ymchwil desg ar systemau llais dysgwyr yn Norwy a Gwlad y Basg |
| Medi 2025 | Ymweliad â'r Iseldiroedd |
| Hydref 2025 | Adroddiad drafft a set ddrafft o egwyddorion lefel uchel |
| Tachwedd 2025 | Trafodaeth bord gron |
| Rhagfyr 2025 | Adroddiad terfynol a set derfynol o egwyddorion lefel uchel |

5.4 Disgwylir i gyflenwyr, fel rhan o'u cais, ddatgan unrhyw berthynas neu gysylltiad â pherson neu bersonau sy'n gyflogai arwyddocaol, wedi'u hethol neu eu henwebu yn y sefydliadau sy'n dod o fewn cwmpas yr arolwg.

5.5 Disgwylir i'r cyflenwr gwblhau rhestr brisio sy'n cynnwys TAW. Uchafswm y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y gwaith hwn yw £12,540 gan gynnwys TAW.

## 6. Defnydd o Ganfyddiadau

6.1 Unwaith y bydd yr ymchwil wedi'i gwblhau, bydd yr adroddiad yn cael ei ddefnyddio i roi adborth i Medr, yr Is-adran Addysg Drydyddol (TED) yn Llywodraeth Cymru, Bwrdd ColegauCymru a'r Fforwm Penaethiaid.

Yn benodol, bydd canfyddiadau'r prosiect hwn yn cael eu defnyddio i lunio ymateb cyfunol ColegauCymru i ymgynghoriad Medr ar lais y dysgwr sydd i'w gynnal yn nhymor yr hydref ar ran y sector addysg bellach.

6.2 Dylai'r ymchwil fod mewn fformat y gellid ei gyhoeddi fel dogfen adroddiad annibynnol.

## 7. Amserlen

Mae’r amserlenni ar gyfer y tendr fel a ganlyn:

| Dyddiad | Gweithgaredd |
|---|---|
| 24 Ebrill 2025 | ColegauCymru i ddarparu gwahoddiad i roi dyfynbris i sefydliadau dethol a'i rannu ar ei wefan. |
| 6 Mai 2025 (10.00yb) | Cyflwyno cynigion i ColegauCymru. |
| 16 Mai 2025 | Hysbysu i’r sefydliad llwyddiannus; y gwaith yn dechrau. |
| w/d 2 Mehefin 2025 | Cyfarfod Cychwyn Prosiect a dechrau ymchwil. |
| 13 Hydref 2025 | Cyflwyno adroddiad drafft ac egwyddorion lefel uchel i ColegauCymru. |
| 5 Rhagfyr 2025 | Rhannu’r adroddiad terfynol gyda ColegauCymru. |

Dylid cyflwyno cynigion drwy e-bost at Sian.Holleran@ColegauCymru.ac.uk erbyn 10.00yb ddydd Mawrth 6 Mai 2025.

Mae tîm y prosiect yn croesawu ymholiadau ynghylch y dyfynbris hwn hyd at ddydd Mercher 30 Ebrill 2025. Ni roddir sylw i unrhyw ohebiaeth nac ymholiadau yn ystod y cyfnod y gwneir penderfyniad contract.